**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad:** | **15 Hydref 2021** |
| **Teitl:** | **Rhaglen Sefydlu Aelodau 2022** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **I'r Pwyllgor ystyried a chytuno ar raglen i'r Aelodau yn dilyn Etholiadau'r Cyngor Sir ym mis Mai 2022.** |

**Cyflwyniad**

Cynhelir Etholiadau'r Cyngor Sir ar y 5$^{ed}$ o Fai 2022 ac mae'n bosib y bydd nifer o Gynghorwyr newydd. At hynny, mae'n bwysig bod rhaglen gadarn a phriodol ar waith o ran Sefydlu Aelodau i sicrhau bod y Cynghorwyr yn deall strwythur y Cyngor, ei drefniadau llywodraethu, a'u rolau a'u cyfrifoldebau nhw, ac ati.

Mae Rhaglen Sefydlu ddrafft yr Aelodau yn amlinellu'r meysydd a fydd yn cael eu cynnwys – gweler Atodiad A (gall y dyddiadau a'r amserau newid).

Cynhelir rhagor o hyfforddiant yn ddiweddarach yn y flwyddyn a bydd hwn yn cynnwys y canlynol:

| | |
|---|---|
| • Gofyn a Gweithredu (Trais yn erbyn menywod a cham-drin domestig), ac Atal<br>• Rheoli Data a Rhyddid Gwybodaeth<br>• Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) | • Cyllid gan gynnwys cyllidebu a rheoli trysorlys<br>• Cyflwyniad i faes Cydraddoldeb<br>• Cyflwyniad i Safonau'r Gymraeg<br>• Y Cyfryngau Cymdeithasol |

Bydd y rhaglen Sefydlu a Hyfforddi yn cael ei theilwra ar gyfer pob Aelod unigol, gan ddibynnu ar eu rolau a'u cyfrifoldebau h.y. pa Bwyllgorau maen nhw'n aelodau ohonynt ac a ydynt yn Gadeirydd / Is-gadeirydd.

Bydd llawer o'r sesiynau hyfforddiant yn orfodol i bob Cynghorydd neu i rai ohonynt (yn gynghorwyr newydd a chynghorwyr phresennol).

**Casgliad**

Dylai'r rhaglen a ddisgrifir yn Atodiad A gynnig cyfle i'r Aelodau ddeall yn drylwyr eu rolau nhw a swyddogaethau'r Cyngor a hynny o fewn yr wythnosau cyntaf ar ôl eu hethol.

Darperir cymorth parhaus i bob Cynghorydd gan y Gwasanaethau Democrataidd, y Swyddog Monitro a'r holl Wasanaethau.

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad:** | **Cytuno ar Raglen Sefydlu i'r Aelodau yn dilyn Etholiadau'r Cyngor Sir ym mis Mai 2022.** |
| **Atodiadau:** | **Atodiad A – Rhaglen Sefydlu ddrafft yr Aelodau 2022.** |
| **Dogfennau cefndirol:** | Mesur Llywodraeth Leol 1972<br>Mesur Llywodraeth Leol 2011<br>Deddf Democratiaeth Leol 2013<br>Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion |

**Nia Jones**
**Rheolwr Corfforaethol Gwasanaethau Democrataidd**

**27 Medi 2021**

# Rhaglen Sefydlu a Hyfforddi Aelodau 2022

**Cynhelir yr hyfforddiant i gyd yn Siambr y Cyngor, Penmorfa, Aberaeron neu o bell drwy fideo-gynadledda os na nodir yn wahanol isod**

<table>
<tr><th>Dyddiad</th><th>Amser</th><th>Manylion</th><th>Sylwadau</th></tr>
<tr><td>10 Mai</td><td>10.00am</td><td>Cyflwyniad i'r Cyngor<br>gan gynnwys Hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad</td><td>Gorfodol ar gyfer pob Cynghorydd</td></tr>
<tr><td>23 Mai</td><td>10.00am</td><td>Rôl a swyddogaeth aelodau Cabinet</td><td>Gorfodol ar gyfer pob Aelod o’r Cabinet</td></tr>
<tr><td>1 Mehefin</td><td>9.30am</td><td>Hyfforddiant ar y Pwyllgor Rheoli Datblygu</td><td>Gorfodol ar gyfer pob aelod o’r Pwyllgor Rheoli Datblygu*</td></tr>
<tr><td>1 Mehefin</td><td>2.00pm</td><td>Maes Cynllunio ar gyfer Cynghorwyr sydd ddim ar y Pwyllgor Rheoli Datblygu</td><td>Gorfodol ar gyfer pob Cynghorydd (ar wahân i’r rhai sydd ar y Pwyllgor Rheoli Datblygu)</td></tr>
<tr><td>8 Mehefin</td><td>10.00am</td><td>Rôl Trosolwg a Chraffu</td><td>Gorfodol ar gyfer pob aelod o’r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu</td></tr>
<tr><td>22 Mehefin</td><td>2.00pm</td><td>Hyfforddiant ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio</td><td>Gorfodol ar gyfer pob aelod o’r Pwyllgor Archwilio*</td></tr>
<tr><td>23 Mehefin</td><td>9.30am</td><td>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a gwneud penderfyniadau effeithiol</td><td>Gorfodol ar gyfer pob Cynghorydd</td></tr>
<tr><td>4 Gorffennaf</td><td>10.00am</td><td>Hyfforddiant ar y Pwyllgor Trwyddedu</td><td>Gorfodol ar gyfer pob aelod o’r Pwyllgor Trwyddedu*</td></tr>
<tr><td>6 Gorffennaf</td><td>9.30am a 2.00pm</td><td>Diogelu – Hyfforddiant Lefel 1</td><td>Gorfodol ar gyfer pob Cynghorydd</td></tr>
<tr><td rowspan="2">21 Gorffennaf</td><td>9.30am</td><td>Cadeirio Trosolwg a Chraffu</td><td rowspan="2">Gorfodol ar gyfer holl Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu</td></tr>
<tr><td>2.00pm</td><td>Rôl y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu mewn perthynas â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol</td></tr>
</table>

Bydd dyddiadau pellach yn cael eu cadarnhau maes o law a rhoddir gwybod i chi amdanynt.

*Sylwer – ni chaniateir i chi eistedd ar y Pwyllgorau hyn os nad ydych wedi mynychu'r hyfforddiant gorfodol.

# Modiwlau e-Ddysgu

Bydd gan bob Cynghorydd fynediad hefyd i'r modiwlau e-ddysgu ar Borth Academi Cymru Gyfan.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi pan fyddwch wedi'ch cofrestru ac yn gallu cael mynediad i'r modiwlau e-ddysgu.